

TANIO ANGERDD

dros hoci





Cynnwys

Neges y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol	3
Adroddiad ariannol	5
Staff Hoci Cymru 2024/25	6
Llywydd Prydain Fawr	7
Graffeg Gwybodaeth Cyfryngau Cymdeithasol	7
YMGYSYLLTU	
Cyfleusterau a Chyllid	9
Diogelu	10
Prosiect treftadaeth	11
Digwyddiad Dathlu Capiâu Hoci Cymru 2024	12
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant	13
Llwybr sirol	15
Gwersylloedd	17
Prif Ystadegau Datblygu Pobl 2024/25	18
CYSTADLU	
Meistri Cymru	20
Enillwyr Cystadlaethau 2024/25	23
Cystadlu - Prif Ystadegau Cystadlaethau 2024/25	24
Cymdeithas Dyfarnwyr Hoci Cymru	25
PERFFORMIO	
Dathlu 2024: Crynodeb o Berfformiad	28
Rhaglen Ranbarthol	30
Capiâu rhyngwladol	33
Crynodeb Cyfarwyddwr Perfformiad	34
Partneriaid a Rhanddeiliaid	36
Ffrindiau Hoci Cymru	37
Edrych Ymlaen: Camau Gweithredu ar gyfer 2025/26	38

Neges y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol

Gyda balchder mawr rwyf yn eich croesawu chi i'n Hadroddiad Blynnyddol ar gyfer y flwyddyn 2024/25. Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn dyst i wydnwch y sector a'i ymrwymiad diwro i ragoriaeth. Wrth i ni adlewyrchu ar ein siwrnai dros y deuddeg mis diwethaf, cawn ein hatgoffa o'r cynnydd rydym wedi'i wneud, yr heriau rydym wedi'u goresgyn, a'r cyfleoedd sydd o'n blaen.

Rydym yn estyn ein diolch cywiraf i'r holl glybiau, gwirfoddolwyr, chwaraewyr, hyfforddwyr, dyfarnwyr, swyddogion ac aelodau pwyllgor sy'n gweithio'n ddiflino i wneud hoci yn bosibl drwy gydol y flwyddyn. Er gwaethaf yr heriau, mae eich ymroddiad chi wedi bod yn anhygoel, ac rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eich gwaith caled a'ch ymrwymiad i'n camp hoff.

Ar lawr gwlad, mae'n galonogol gweld nifer y timau hoci i oedolion yn gyson o hyd o gymharu â'r llynedd. Mae hoci wedi dangos gwydnwch rhyfeddol yn y cyfnod ar ôl Covid, gan wneud yn dda o gymharu â chwaraeon tîm eraill. Mae hoci iau yn parhau i fod yn gadarn, gyda chlybiau'n nodi cyfranogiad iach ar draws pob lefel.

Rydym wrth ein bodd hefyd yn gweld cydraddoldeb rhywedd yn ffynnu yn ein camp, hyd yn oed yng nghanol pryderon ynghylch poblogrwydd cynyddol pêl-droed a chriced genethod a merched. Mae ein safbwynt ni'n parhau'n gadarn ac yn gynhwysol: cyn belled â bod hoci yn parhau i gynnig profiadau gwych ledled y wlad, dim ond cynyddu fydd y cyfleoedd ar gyfer twf a'r llwyddiant.

Mae ein cyflawniadau ni eleni wedi bod yn nodedig.

Lansiwyd ein strategaeth 3 blynedd newydd ym mis Gorffennaf 24. Mae'r strategaeth hon wedi darparu eglurder i bob rhanddeiliad. Mae ein gweledigaeth – Tanio angerdd dros Hoci drwy gyflawni ar 3 philer strategol, yn darparu cyfeiriad clir i'r gamp yn ystod y blynnyddoedd sydd i ddod ac yn galluogi rhanddeiliaid allweddol i gydweithio ar feysydd ag amcanion cyffredin.

Mae ein hamcanion yn glir

- YMGYSYLLTU** – Hoci i bawb, ym mhob man, mewn amrywiadau niferus, ac ar wahanol arwynebau.
- CYSTADLU** – Y gallu i wyllo neu gystadlu mewn hoci, gan feithrin awyrgylch hwyliog a chyffrous.
- PERFFORMIO** – Herio ac ysbrydoli'n gyson gyda'n Perfformiad Rhyngwladol.

"Mae ein safbwynt ni'n parhau'n gadarn ac yn gynhwysol: cyn belled â bod hoci yn parhau i gynnig profiadau gwych ledled y wlad, dim ond cynyddu fydd y cyfleoedd ar gyfer twf a'r llwyddiant."



Rydym wedi ail-lunio ein tîm, ehangu ein hamrywiaeth o bartneriaid, a chroesawu gwasanaethau newydd sy'n gyrru effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ar gyfer Hoci. Mae'r cyflawniadau hyn yn ganlyniad uniongyrchol i ymroddiad a gwaith caled ein tîm talentog, teyrngarwch ac ymddiriedaeth ein haelodau, a chefnogaeth ddiwro ein partneriaid.

Er gwaethaf amgylchedd economaidd heriol ac, o ganlyniad, model cyllido heriol ar gyfer chwaraeon yng Nghymru, costau byw a chwyddiant, fe wnaethom gyflawni perfformiad ariannol cadarn. Mae cyflawni cynllun ariannol newydd a nodi effeithlonrwydd ac arbedion ar gyfer ein dyfodol wedi bod yn weithred fwriadol iawn gan y bwrdd.

Rydym yn ddiolchgar i Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru am eu cefnogaeth ariannol barhaus, sy'n ein galluogi i gyflawni amcanion y cytundeb Partneriaeth a'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.

Ar y cae, rydym wedi gweld blwyddyn anhygoel arall!

Mae wedi bod yn flwyddyn aruthrol i athletwyr yn cynrychioli Prydain Fawr. Roedd 10 athletwr yng

ngghynllun Prydain Fawr, 5 ar lefel hŷn a 5 ar lefel Datblygiad Elitaidd (EDP). Aeth 4 chwaraewr ymlaen i gynrychioli Prydain Fawr yng Ngemau Olympaidd Paris. Llongyfarchiadau enfawr i Sarah Jones, Jacob Draper, Rupert Shipperley a Gareth Furlong.

Mae'n wych gweld Cymru'n perfformio'n well na'r disgwyl a llongyfarchiadau enfawr i bawb a gymerodd ran. Wrth i ni symud i 25/26, rydym eisoes wedi rhagori ar y nifer hwn, gyda Chymru wedi cael 11 o athletwyr ar lwybr newydd Prydain Fawr cyn gemau Los Angeles yn 2028.

Ar lefel clwb, aeth y gynghrair dan do o nerth i nerth diolch i ymdrechion rhagorol Darren Morgan-Lock a gwirfoddolwyr. Mae'r llwyfan wedi'i osod ar gyfer cystadleuaeth fwy a gwell fyth yn 2025/26. Mae cynlluniau ar droed i weld cynghrair dan do Gogledd Cymru yn cael ei sefydlu.

Mae Dynion Caerdydd a'r Met yn parhau i ragori, gan ennill y gynghrair dan do a chynnal eu statws yn yr Uwch Gynghrair, cyflawniad sylweddol i'r clwb. Mae adran y merched wedi ennill eu cynghrair a bydd dyrchafiad i'r gynghrair Genedlaethol yn 25/26.

Mewn ysgolion, gwrandawodd y tîm ar adborth a gwnaeth rai newidiadau gweithredol, a wnaeth hoci ysgolion yn haws cael mynediad iddo a chreu timau. Arweiniodd y newidiadau hyn at gynnydd o 25% yn nifer y cystadleuwyr, gyda'r twf mwyaf mewn timau bechgyn. Diolch o galon i Goleg Crist, Aberhonddu am eu cefnogaeth yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau terfynol llwyddiannus.

Mae hoci'r Meistri'n parhau i ffynnu, gyda Chymru'n anfon grwpiau oedran niferus i Gwpanau Byd yn Ne Affrica a Seland Newydd. Rhaid cyfeirio at y Merched dros 65 oed, a ddychwelodd adref gyda medal arian.

Mae rhagor o fanylion am bob agwedd ar hoci ar gael drwy'r adroddiad hwn.

Yn olaf, diolch o galon i'r holl chwaraewyr, hyfforddwyr, dyfarnwyr, swyddogion a gwirfoddolwyr sy'n gwneud hoci mor arbennig. Mae eich ymrwymiad a'ch gwaith caled chi'n cadw ein camp yn ffynnu. Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen am y rôl hanfodol rydych chi'n ei chwarae yn ein camp dîm wych, sef hoci. Diolch i chi am bopeth rydych chi'n ei wneud!

Diolch,



Bill Riley
Cadeirydd



Paul Whapham
Prif Swyddog Gweithredol





**“...diolch o galon i'r
holl chwaraewyr,
hyfforddwyr,
dyfarnwyr,
swyddogion a
gwirfoddolwyr sy'n
gwneud hoci mor
arbennig.”**

Adroddiad ariannol

Incwm	
Grant Chwaraeon Cymru	£509,654
Grant Loteri – Perfformiad	£191,260
Grantiau Eraill	£38,942
Masnachol	£73,562
Aelodaeth	£155,234
Datblygu Chwaraeon	£54,512
CYFANSWM	£1,023,164

Gwariant	
Grant Chwaraeon Cymru	£509,654
Grant Loteri – Perfformiad	£191,260
Grantiau Eraill	£33,574
Masnachol	£36,767
Aelodaeth	£155,234
Datblygu Chwaraeon	£54,512
CYFANSWM	£981,001



Staff Hoci Cymru 2024/25

Bwrdd Cyfarwyddwyr

- Paul (Bill) Riley** Cyfarwyddwr Etholedig, Cadeirydd, Cadeirydd TAG Cystadlaethau
- Kate Williams** Cyfarwyddwr Etholedig
- Andrea Byrne** Cyfarwyddwr a Benodwyd
- David Francis** Cyfarwyddwr a Benodwyd, Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol
- David Hagendyk** Cyfarwyddwr a Benodwyd
- Jeevan Chagger** Cyfarwyddwr a Benodwyd
- Debbie Wakeford** Cyfarwyddwr a Benodwyd ac Ysgrifennydd y Cwmni
- Paul Whapham** Prif Weithredwr
- Martyn Gallivan** Llywydd (dim pleidlais)
- Robert Croft** Cyfarwyddwr a Benodwyd (*tan fis Mai 2024*)
- Tony O'Regan** Cyfarwyddwr Etholedig (*tan fis Rhagfyr 2024*)

Staff

- Paul Whapham** Prif Swyddog Gweithredol
- Joe Gage PT** Cyfarwyddwr Datblygiad a Chyfranogiad
- Amanda Roberts** Rheolwr Digwyddiadau
- Kevin Johnson PT** Cyfarwyddwr Perfformiad
- Stephanie Bullen PT**.... Gweinydddydd Busnes
- Ella Jackson** Rheolwr Llwybr a Chydymffurfiaeth
- Sydney Davies PT** Arweinydd Perfformiad, Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus
- Jane Price** Rheolwr Cefnogi Busnes
- Matt Davis PT** Swyddog Datblygu Hoci (De Ddwyrain) (*o fis Ionawr 2025 ymlaen*)
- Chelsea Jenkins** Swyddog Datblygu Hoci (De Ddwyrain)
- Cerys Studt** Swyddog Datblygu Hoci (Gogledd)
- Bethan Collier PT** Swyddog Cefnogi Cymunedau (*tan fis Awst 2024*)
- Harriet Barker PT** Swyddog Datblygu Hoci (De Ddwyrain) (*tan fis Tachwedd 2024*)
- Alice Gregory** Rheolwr Prosiectau (*tan fis Chwefror 2025*)



Llywydd Prydain Fawr

Ym mis Chwefror 2024, cadarnhaodd Shelia Morrow, Llywydd Prydain Fawr ac Aelod Oes o Hoci Cymru, y byddai'n camu i lawr o'i rôl.

Mae Shelia, sydd wedi gwasanaethu yn y rôl ers 2017, wedi bod yn ffigur allweddol yn y gamp, gan gyfrannu cyfoeth o brofiad ac ymroddiad i ddatblygiad hoci ym Mhrydain Fawr.

O dan arweinyddiaeth Sheila fel Llywydd Hoci Prydain Fawr, mae'r sefydliad wedi gweld twf a llwyddiant sylweddol, gan gynnwys datblygiad parhaus rhaglenni'r dynion a'r merched. Mae ei chyfnod yn y swydd wedi'i nodi gan ymrwymiad i gynhwysiant, arloesedd a rhagoriaeth o fewn hoci Prydain.

Ar ran pawb yn Hoci Cymru, hoffem estyn ein diolch didwyllaf i Sheila am ei gwasanaeth a'i harweinyddiaeth ragorol a dymuno'r gorau iddi ar gyfer y dyfodol.

Am ragor o wybodaeth, [cliciwch yma](#).




Sheila Morrow, Llywydd Prydain Fawr ac aelod o Hoci Cymru Life

“Mae wedi bod yn ffrainc aruthrol gwasanaethu fel Llywydd Hoci Prydain Fawr. Mae hoci wedi bod yn rhan allweddol o fy mywyd i ac rwy'n hynod falch o'r cynnydd rydym wedi'i wneud wrth ddatblygu a hyrwyddo'r gamp.


Hoffwn ddiolch i'r holl chwaraewyr, hyfforddwyr, swyddogion a gwirfoddolwyr sy'n gwneud hoci Prydain yn gymuned ffyniannus fel y mae heddiw, ac rwy'n mawr obeithio bydd fy olynydd i'n mwynhau'r cyfnod yn y swydd gymaint â mi.”

Graffeg Gwybodaeth Cyfryngau Cymdeithasol


Dilynwyr



Cynnwys Wedi'i Gyhoeddi



Gwyllo/Argraffiadau



Cylchlythyr

	Hoci Cymru	Cyfartaledd y Diwydiant
Tanysgrifwyr	5k+	N/A
Cyfradd agor unigryw	54%	40%
Cyfradd clicio	10%	2-4%
Cyfradd clicio unigryw	8%	2-4%

YMGYSYLLTU

Cyfleusterau a Chyllid

Mwy na **£205,000** wedi'i
Fuddsoddi mewn Cyfleusterau
Hoci Ledled Cymru



Ysgol Rydal Penrhos
– **£168,313** wedi'i
fuddsoddi

Mae buddsoddiad hanfodol wedi sicrhau cae newydd yng Ngogledd Cymru yn Ysgol Rydal Penrhos, gan gefnogi mynediad i glybiau a'r gymuned. Wedi'i leoli ger Clwb Hoci Eirias, mae'r cyfleuster hwn yn cynyddu'r capasiti ar gyfer gemau a hyfforddiant.

Mae cytundeb defnydd cymunedol yn sicrhau mynediad ehangach i hoci meistri, timau cenedlaethol Cymru, ac unrhyw dimau – gyda manteision ychwanegol gan gynnwys mynediad i gyfleusterau dan do cyfagos ac ardal wyllo bwrpasol.

Darllen mwy am hyn: [cliciwch yma](#)

£60,000+ wedi'i fuddsoddi
mewn **Datblygu Clybiau**

Cafodd 15 o glybiau ledled Cymru fynediad i Gronfa Cymru Actif eleni, gan gefnogi amrywiaeth o fentrau sy'n cryfhau hoci ar lawr gwlad.

Defnyddiwyd y cyllid i wneud y canlynol:

- Cyflwyno cyrsiau hyfforddi a datblygu gwirfoddolwyr
- Prynu offer hyfforddi hanfodol
- Cynnal sesiynau hoci ieuenctid ac oedolion i ddenu chwaraewyr newydd
- Cynnal mentrau fel hoci cerdded a rhaglenni haf

Mae'r buddsoddiad hwn wedi helpu clybiau i dyfu eu cynnig, datblygu eu pobl, a chreu mwy o gyfleoedd i gymunedau fod yn actif drwy hoci.

Athrofa Chwaraeon Cymru
– **£45,000** wedi'i fuddsoddi

sportwales
chwaraeoncymru

Mae gwaith uwchraddio yn Athrofa Chwaraeon Cymru wedi gwella perfformiad, diogelwch a phrofiad y gwylwyr.

Mae'r gwelliannau allweddol yn cynnwys:

- Cofnod AP ar gyfer codio a dadansoddi gemau byw
- Parthau seddi a gwahanu newydd ar gyfer swyddogion, chwaraewyr a gwylwyr
- Technoleg ffyrddio a sgorfwrdd well i fodloni safonau FIH

Mae'r datblygiadau hyn yn cefnogi timau cenedlaethol Cymru, Caerdydd a'r Met, meistri, a thimau cymunedol, gan roi hwb sylweddol i amlygrwydd hoci yng Nghymru a chreu cyfleoedd masnachol a pherfformiad newydd.



Diogelu

Mae cyfarfodydd rheolaidd gyda Swyddogion Lles Clybiau (SLIC) wedi helpu i adnewyddu ac atgyfnerthu ein prosesau adrodd. Darparodd y sesiynau hyn ganllawiau wedi'u diweddaru a chreu lle ar gyfer cwestiynau ac adborth.

O ganlyniad, fe wnaethom lansio'r 'Rhwydwaith Diogelu' ar Spond, gan wahodd pob SLIC i rannu arfer gorau a chymryd rhan mewn trafodaethau wythnosol. Mae adnoddau a diweddariadau newydd yn cael eu dosbarthu'n rheolaidd, gan gryfhau ein dull ar y cyd o ddiogelu.



Cyflawni Safon Diogelu Lefel 3 – Mai 2024

Roeddem yn falch o sicrhau Safon Diogelu Lefel 3 CPSU, gyda chefnogaeth ymgysylltu cadarn â chlybiau, adrodd effeithiol, ac adborth parhaus.



Cynnydd o 25% mewn Adroddiadau Diogelu

Er mai ein nod yw lleihau nifer y pryderon, mae'r cynnydd o 25% mewn adroddiadau a gofnodwyd (drwy ein ffurflen ar-lein a MyConcern) yn adlewyrchu ymwybyddiaeth a hyder gwell wrth ddefnyddio ein prosesau. Mae'n rhoi darlun cywirach o'r heriau a wynebir yn ein camp, gan ein helpu i nodi meysydd lle gallwn gynnig gwell cefnogaeth, lleihau pwysau ar wirfoddolwyr, ac atal problemau cyn iddynt waethygu.

- Wythnos 'Cyfryngau Cymdeithasol Diogel' – cynnwys sy'n chwalu pob myth i annog adrodd
- Amlygrwydd cynyddol i ddiogelu drwy gydol y tymor
- Dolen adborth barhaus gyda chlybiau i wella ein cefnogaeth a'n hadnoddau

Diolch yn arbennig i'n haelodau ni a Swyddogion Lles y Clybiau am eich ymrwymiad i ddiogelu, am ddilyn prosesau, ac am helpu i gadw hoci yng Nghymru yn amgylchedd diogel a chefnogol i bawb.



Prosiect treftadaeth

Diolch i waith anhygoel Steve Knight a Phil Bailey, mae ein Prosiect Treftadaeth yn parhau i dyfu o ran cyrhaeddiad ac effaith.

UCHAFBWYNTIAU

- **250+** o eitemau vintage wedi'u digideiddio a'u hadfer – yn dyddio'n ôl i 1895
- **559** o gysylltiadau cyn-chwaraewyr wedi'u casglu – **253** o ferched a **306** o ddynion
- Delweddau hanesyddol prin wedi'u hadfer ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Mwy na **90** o fynychwyr wedi ymuno â'n Digwyddiad Dathlu Capiâu blynyddol, gyda **39** o gyn-chwaraewyr yn derbyn eu cap rhyngwladol cyntaf am gynrychioli Cymru

Yn ei flwyddyn olaf o gyllid bellach, mae'r prosiect wedi meithrin momentwm real. Rydym ni nawr yn troi ein ffocws at gofnodi hanesion cyfoethog clybiau ledled Cymru – gan helpu i godi ymwybyddiaeth o siwrnai hoci fel camp drwy'r degawdau.

BYDDDEM WRTH EIN BODD YN CLYWED GENNYCH CHI!

Os oes gan eich clwb chi straeon, lluniau neu eitemau cofiadwy i'w rhannu, cysylltwch â ni ar:

@ hockeyhistory@hockeywales.org.uk

neu edrychwch ar y prosiect ar-lein:

www.hockeywales.org.uk/hockey-heritage

Diolch enfawr i'r **Gronfa Dreftadaeth Genedlaethol** am ei chefnogaeth a'i chyfraniadau parhaus – sy'n ein galluogi ni i ailgysylltu â'n gwreiddiau a dathlu hanes hoci yng Nghymru.



Digwyddiad Dathlu Capiau Hoci Cymru 2024

Roedd Hoci Cymru yn eithriadol falch o gael 39 o gyn-chwaraewyr yn ymuno yn y digwyddiad dathlu capiau eleni lle cawsant eu cap cyntaf am gynrychioli Cymru! Ymunodd mwy na 90 o bobl â ni, gyda ffrindiau a theuluoedd y cyn-chwaraewyr yn ymuno â nhw ar yr achlysur arbennig hwn. Roedd digon o chwerthin, dagrau a chofleidio!

Yn ystod y prynhawn o hel atgofion, cawsom sesiwn Holi ac Ateb gyda dau o'n cyn-chwaraewyr, David Hacker ac Eiranwen Thomas, fu'n rhannu eu profiadau a'u hatgofion yn gynrychioli Cymru ac, yn achos David, Prydain Fawr hefyd. Cafwyd areithiau pellach gan Brif Swyddog Gweithredol Hoci Cymru, Paul Whapham, un o Haneswyr Gwirfoddol anhygoel Hoci Cymru, Phil Bailey, Rheolwr Prosiectau Hoci Cymru, Alice Gregory, ac i gloi'r diwrnod cawsom gwmni Llysgennad Ifanc Hoci Cymru, Lily Morgan, yn cyflwyno ei gwaith ar Niwroamrywiaeth mewn Chwaraeon.

*I weld mwy o'r digwyddiad yma cliciwch **yma***



◀ Margaret Richardson

Yn 1962, roedd Margaret Richardson yn rhan o dîm hoci cyntaf erioed Cymru – dynion neu ferched – i drechu Lloegr, gan sicrhau buddugoliaeth o 1-0 yn Stadiwm Wembley o flaen mwy na 60,000 o gefnogwyr!



Plant Howie Williams, Adam a Kate, gyda'i Gapiau

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

- Traciwr ymgysylltu = mae mwy na 370 o ddisgyblion / cyfranogwyr ag anableddau yn mynychu bywyd a hwyl, gwyliau ysgol, gwyliau aml-chwaraeon ChAC neu ein sesiynau dewch i roi cynnig arni.
- 4 digwyddiad galw heibio cynhwysiant Chwaraeon Anabledd Cymru, 2 Hoci Cymru gyda phartneriaethau Chwaraeon Anabledd Cymru a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant yn Abertawe, 7 ysgol ADY, 8 awdurdod lleol. (Casnewydd, Gwent, Caerdydd, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro).
- Datblygiad clwb hoci anabledd yng Nghastell-nedd Port Talbot drwy bartneriaeth â NPT PASS.
- Lily Morgan = cyn Lysgennad Ifanc, enillydd Gwobr Ymgyrchydd Ifanc y Flwyddyn gan Youth Change Maker. Am ei hymroddiad a'i hangerdd wrth eiriol dros niwroamrywiaeth mewn chwaraeon a chodi ymwybyddiaeth ohono.
- Cymorth cyntaf RALPH = Clwb Hoci Yr Isga, Clwb Hoci Sue Noake.



ARDALOEDD GWLEDIG:

Y gorllwein

- **Abergwaun:** anodd teithio oherwydd ei fod mor bell i'r gorllewin. Partneriaethau â chlwb hoci Abergwaun ac Wdigh, Chwaraeon Sir Benfro, Canolfan Hamdden Abergwaun, Ysgol Brogwaun (Dyfarniad Arweinyddiaeth) a Llysgenhadon Ifanc Hoci. Wedi mynychu digwyddiadau hanner tymor mewn ardaloedd prydau ysgol am ddim a digwyddiadau cefnogi plant y fyddin. Cynnal gwrsylloedd Haf Hwyl Hoci gyda chefnogaeth y clwb a Llysgenhadon Ifanc Hoci. Mae'r clwb wedi bod yn llwyddiannus gyda Chronfa Cymru Actif.
- **Sir Gaerfyrddin:** partneriaeth gyda chlwb hoci Sir Gaerfyrddin a rhwydwaith chwaraeon Sir Gaerfyrddin i sicrhau mwy o ymgysylltu a chyfranogiad. Gyda chefnogaeth Hoci Cymru, aeth clwb hoci Caerfyrddin i ysgolion cynradd ac uwchradd i gyflwyno sesiynau hoci er mwyn rhoi'r cyfle i'r ysgolion hynny ar draws yr awdurdod lleol. Targedwyd mwy na 650 o ddisgyblion ar draws yr awdurdod lleol, ac maent wedi gweld cynnydd mewn cyfranogiad iau.
- **Cwmtawe:** wedi gweithio mewn partneriaeth â chlwb Hoci Cwmtawe, Chwaraeon Powys, Ysgol Maesydderwen (dyfarniad arweinyddiaeth) = 20 o Arweinwyr Hoci newydd, Freedom Leisure Ystradgynlais. Cwblhawyd gŵyl ysgolion cynradd gyda mwy na 200 o ddisgyblion yn bresennol. Mae adran iau clwb hoci Cwmtawe wedi treblu ers y digwyddiad ac mae bellach yn mynychu mwy o ddigwyddiadau hoci. Nawr mae gennym ni Wersyll Hwyl Hoci ymgysylltu a gwrsyll Cynhwysiant yn yr haf. Hefyd, mae clwb hoci cerdded (17 i 82 oed) wedi cael ei sefydlu.

Y dwyrain:


- **Coleg Crist Aberhonddu:** oherwydd nad oes unrhyw glybiau hoci gerllaw a'i fod yng nghanolbarth Cymru. Roedden ni eisiau dod â chymaint o hoci â phosibl i'r ardal e.e. cynnal Rowndiau Terfynol Cenedlaethol yr Ysgolion yn yr ysgol yn 2025 a chynnig gwrsyll hoci preswyl newydd ym mis Mai 2025.



Abergwaun



Cwmtawe



Sir Gaerfyrddin



- **Bwyd a hwyl 2024** – **1343+** o ddisgyblion, **49** o ysgolion, **13** Awdurdod Lleol, **5** wedi’u cynnwys.
- **Wedi cyfrannu offer** – **12** ysgol gynradd a **5** ysgol uwchradd.
- **Gweithredu dros Blant** – stadiwm Swansea.com, mynychodd 540 o ddisgyblion a rhoi cynnig ar hoci (gan ganolbwyntio ar wella / cefnogi iechyd meddwl a lles) = partneriaeth gyda Gweithredu dros Blant, y Gweilch yn y gymuned a Choleg Gŵyr.
- **Gŵyl Chwaraeon Gareth Bale** – Nod y digwyddiad oedd darparu cyfleoedd i bobl ifanc sy’n byw mewn cymunedau incwm isel heb wasanaethau digonol roi cynnig ar amrywiaeth o wahanol chwaraeon a gweithgareddau. Mynychodd 103 o Bobl Ifanc, rhwng 11 a 18 oed, o 9 cymuned wahanol, ŵyl 2024. Partneriaeth â StreetGames. (Celtic Manor, Casnewydd).



Prif Ystadegau Ymgysylltu – Digwyddiad 2024/25

Event name	Niferoedd yn y digwyddiad ar gyfartaledd	Niferoedd wedi chwarae hoci
Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru	100,000	1200
Gweithredu dros Blant	600	540
Gŵyl Para – Chwaraeon Anabledd Cymru	200	100
Gŵyl Llysgenhadon Ifanc Actif	150	150
Gŵyl Para NPT PASS	80	80
Gŵyl Chwaraeon Gareth Bales	100	100
Digwyddiad Elusenol RR81	300	250

LLEIAFRIFOEDD ETHNIG:

- **Yng Nghastell-nedd Port Talbot** rydyn ni wedi gwneud llawer o waith ac ymgysylltu ag Ysgol Iau Gatholig Sant Joseff. Mae disgyblion yr ysgol yn siarad cyfanswm o 11 iaith i gyd. Maen nhw wedi mynychu gwyliau ysgolion cynradd ac rydyn ni wedi mynychu’r ysgol sawl gwaith gyda sesiynau blasu ac wythnosau thema fel wythnos iechyd meddwl ac wythnos India lle buon nhw’n dysgu am ddiwylliant India (hoci = camp genedlaethol). Rydyn ni hefyd wedi rhoi offer i’r ysgol i ddal ati i chwarae hoci a mynychu digwyddiadau.

YMGYSYLLTU CYMUNEDOL, LLYSGENHADON IFANC A GWIRFODDOLWYR



Llwybr sirol

Mis Hydref 2024 oedd dechrau ein Llwybr Sirol wedi'i ailfrandio'n llwyddiannus am yr ail flwyddyn yn olynol. Eleni, cymerodd wyth sir o bob cwr o Gymru ran, gan gynnwys:

- Dyfed
- Caerdydd
- Afan Nedd Tawe
- Y Gogledd Ddwyrain
- Eryri
- Arfordir y De
- Gwent
- Cymoedd Morganwg



Eleni, fe gawsom fwy na **800** o enwebiadau chwaraewyr gan ysgolion a chlybiau – cynnydd o **33.3%** o **600** yn 2023/24 – gyda'r holl chwaraewyr a enwebwyd rhwng 13 ac 17 oed.

Gan ddilyn yr un patrwm â'r llynedd, bu pob sir yn ymarfer bob yn ail nos Wener a chystadlu mewn tair gêm glwstwr yn erbyn siroedd eraill, a hynny i gyd wrth baratoi ar gyfer y Pencampwriaethau Sirol.

Yn ystod rhaglen y Llwybr, dyrannwyd cyfanswm o 16 o oriau o amser hyfforddi i bob sir a chyfranogwr unigol, gyda hyn yn digwydd rhwng misoedd Hydref a Chwefror. Yn ogystal â hyn, derbyniodd y cyfranogwyr 6 awr o amser chwarae hefyd, a ddosbarthwyd ar draws y gemau clwstwr a'r Bencampwriaeth Sirol. Nod y strwythur hwn oedd darparu profiad datblygu cytbwys, gan gyfuno datblygu sgiliau drwy hyfforddiant a defnydd ymarferol drwy chwarae cystadleuol.

Cyfranogiad:

Mae'r cynnydd yn y niferoedd o 2023/24 yn adlewyrchu twf a gwelliant cadarn, gan dynnu sylw at ba mor effeithiol y mae'r Llwybr wedi bod eleni wrth gefnogi datblygiad chwaraewyr, yn ogystal â pharatoi chwaraewyr ar gyfer dewis a chystadlu mewn timau cynrychioliadol.

Mae'r cynnydd sylweddol mewn cyfranogiad bechgyn (138%) wedi bod yn gam mawr ymlaen wrth ddarparu mwy o gyfleoedd o fewn gêm y bechgyn a chefnogi eu datblygiad. Mae hefyd yn cyd-fynd â nod Hoci Cymru o gynyddu cyfranogiad bechgyn yn y gamp.

Cyfanswm y chwaraewyr sy'n cymryd rhan yn Llwybr y Sir



Pencampwriaeth Sirol

Cynhaliwyd y Bencampwriaeth Sirol ym Mharc Chwaraeon Bae Abertawe yn ystod hanner tymor mis Chwefror. Roedd yn wythnos hynod lwyddiannus, gan arddangos hoci gwych ac awyrgylch arbennig, gyda chefnogaeth gref i bob sir drwy gydol y digwyddiad.

Canlyniadau'r Bencampwriaeth Sirol

BECHGYN



Arfordir y De 2



Arfordir y De 1



Eryri

MERCHED D15



Eryri



Gogledd-ddwyrain



Gwent

MERCHED D17



Arfordir y De



**Tîm cyfunol
Gwent /
Gogledd
Ddwyrain**



**Cymoedd
Morgannwg**

**"ROEDD YN WYTHNOS
HYNOD LWYDDIANNUS..."**

LLONGYFARCHIADAU I BOB TÎM A GYMERODD RAN YM MHENCAMPWRIAETH SIROL HOCI CYMRU 2024/25.

Diolch yn fawr iawn i'r hyfforddwyr, y dyfarnwyr a'r Llysgenhadon Ifanc yr oedd eu hymroddiad a'u gwaith caled yn allweddol i wneud y digwyddiad hwn yn llwyddiant. Heb eich cyfraniadau amhrisiadwy chi, ni fyddai'r Llwybr Sirol a'r Bencampwriaeth yn bosibl.



Cynnydd

Mae'r Bencampwriaeth Sirol yn rhoi cyfle i hyfforddwyr RPC a NAG arsylwi chwaraewyr. Roedd ein hyfforddwyr RPC a NAG yn bresennol drwy gydol y Bencampwriaeth Sirol.

Yn dilyn yr asesiad hwn, mae cyfanswm o **99** o ferched a **56** o fechgyn wedi cael eu gwahodd i ymuno â'r Canolfannau Perfformiad Rhanbarthol.



Gwersylloedd

Mae'r Gwersylloedd Hwyl Hoci wedi cael eu cynllunio ar gyfer chwaraewyr 8 i 13 oed o bob lefel sgiliau, os ydyn nhw'n cydio mewn ffon hoci am y tro cyntaf neu'n ceisio gwella eu gêm.

• Cyfanswm y Gwersylloedd a gynhaliwyd: **21**

Hyd yma, rydyn ni wedi cyflwyno 21 o wersylloedd hoci yn llwyddiannus ledled Cymru. Mae'r gwersylloedd yma wedi darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael mynediad at brofiadau hoci o safon yn ystod gwyliau'r ysgol a chyfnodau y tu allan i'r tymor.

• Cyfanswm y cyfranogwyr: **295**

Mae cyfanswm o 295 o blant a phobl ifanc wedi ymgysylltu â'n gwersylloedd ni, gan ddangos diddordeb cryf a galw cynyddol am gyfleoedd hoci ar lawr gwlad.

• Cyfartaledd y cyfranogwyr ym mhob Gwersyll: **14.05**

Ar gyfartaledd, mae pob gwersyll wedi croesawu ychydig dros 14 o gyfranogwyr. Mae'r nifer cyson yma'n adlewyrchu hygyrchedd y sesiynau a'n hymdrechion ni i sicrhau meintiau grŵp y mae posib eu rheoli ar gyfer hyfforddiant a diogelwch o safon.

• Gwersylloedd i Ddod

Mae gennym ni fwy o wersylloedd wedi'u trefnu yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd y rhain yn ein helpu ni i adeiladu ymhellach ar y momentwm presennol a pharhau i gyrraedd cyfranogwyr newydd, yn enwedig mewn meysydd sydd wedi'u nodi fel blaenoriaethau strategol.

• Gwersylloedd Wedi'u Cwblhau

Mae'r gwersylloedd wedi'u cwblhau wedi rhoi gwybodaeth werthfawr am yr hyn sy'n gweithio'n dda mewn gwahanol leoliadau cymunedol a sut gallwn ni barhau i esblygu ein model cyflwyno.

• Wedi'u cyflwyno mewn **12** o leoliadau gwahanol ledled Cymru

Mae'r gwersylloedd wedi'u lleoli'n strategol ar draws 12 ardal wahanol yng Nghymru, gyda ffocws cadarn ar ranbarthau a nodwyd fel rhai sydd â galw cudd neu sydd heb ddigon o ddarpariaeth hoci yn hanesyddol. Mae hyn yn cynnwys gwaith wedi'i dargedu mewn ardaloedd lle mae cost, daearyddiaeth neu fynediad at gyfleusterau wedi bod yn rhwystrau i gyfranogiad yn y gorffennol. Drwy fabwysiadu dull cymuned yn gyntaf o weithredu, rydyn ni wedi ceisio sicrhau bod mwy o blant yn cael y cyfle i gydio mewn ffon a chymryd rhan yn y gamp, dim ots beth yw eu cefndir neu god post.

Os hoffech chi gael gwybod mwy neu archebu lle mewn gwersyll, [cliciwch yma](#).



Prif Ystadegau Datblygu Pobl 2024/25

PRIF

193 Cyfanswm y bobl a hyfforddwyd

125 Nifer y bobl a aseswyd

1,483 Nifer yr oriau dysgu

HYFFORDDWYR

108 Cyfanswm y bobl a hyfforddwyd

94 Nifer y bobl a aseswyd

888 Nifer yr oriau dysgu

DYFARNWYR

85 Cyfanswm y bobl a hyfforddwyd

31 Nifer y bobl a aseswyd

595 Nifer yr oriau dysgu



CYSTADLU

Meistri Cymru

Meistri Cymru yn Disgleirio ar Lwyfan y Byd

Mae wedi bod yn flwyddyn enfawr i hoci'r Meistri yng Nghymru, gyda mis Hydref a mis Tachwedd yn cloi'r cyfan mewn steil yng Nghwpan Hoci'r Byd y Meistri 2024.

Yn cael ei gynnal yn Cape Town, De Affrica ym mis Hydref yn ogystal ag Auckland, Seland Newydd ym mis Tachwedd, aeth y Cymry â llu o dimau i'r ddau leoliad i gystadlu ar lwyfan y byd.

Teithiodd grwpiau oedran yn amrywio o Dros 35 oed i Dros 75 oed filoedd o filltiroedd yn cludo baner Cymru, gan sicrhau llwyddiant a chanmoliaeth ar hyd y ffordd.

Daeth yr uchafbwynt yn Auckland wrth i'r Merched Dros 65 oed sicrhau unig safle podiwm y wlad ar draws pob categori oedran, gan ennill medal arian. Da iawn.

Am fwy o wybodaeth, [cliciwch yma](#)

Y Merched Dros 65 oed yn ennill medal arian yn Seland Newydd ar ôl trechu Awstralia mewn cystadleuaeth ergydio at y gôl



Y Dynion Dros 60 oed yn bedwerydd yn Seland Newydd – yr ymddangosiad cyntaf erioed yn y pedwar olaf



Carfan Hoci Cymru yn cyrraedd Cape Town ar gyfer Cwpan Hoci'r Byd y Meistri 2024





Glyn Thomas

Roedd 2024 yn addo bod yn flwyddyn aruthrol i hoci'r Meistri yng Nghymru, gyda thîm y Dynion Dros 75 oed yn paratoi ar gyfer twrnamaint 4 Gwlad ym mis Mai a chystadlu yng Nghwpan y Byd yn Cape Town ym mis Hydref.

Un aelod allweddol o'r tîm hwnnw, a rhywun y mae hoci wedi bod yn agos at ei galon erioed, yw'r gôlgeidwad Glyn Thomas.

Darllen mwy am stori Glyn, [cliciwch yma](#)



“Mae fy hoff atgofion yn cynnwys canu yr anthem genedlaethol ar gyfer y tîm cyntaf erioed o Gymru yng Nghwpan y Byd dros y 60au, yng Nawr yn 2010.”

Llwybr 2024 i Gwpanau Byd

Chwaraewyd mewn llawer o dwrnameintiau a gemau ar y siwrnai Cwpan y Byd, gan gynnwys y canlynol:

- BELFAST**
Helpodd y prif sgorwyr goliau, Ian Johnson a Steve Sparkes (4 yr un), i sicrhau **3ydd** safle i'r Dynion Dros 70 oed yn y 4 Gwlad. Gorffennodd y tîm Dros 65 oed a Dros 75 oed yn **3ydd** hefyd a gorffennodd y tîm Dros 60 oed yn **4ydd**
- CORC**
Cysondeb gan dimau Dros 35, Dros 40 a Dros 45 y Merched gyda'r 3 tîm yn hawlio'r **3ydd** safle yn nhwrnameintiau'r 4 Gwlad
- DUISBURG**
Gorffen yn yr **2il** a'r **3ydd** safle i dimau Dros 60 a Dros 55 y Merched yn y twrnamaint gwahoddiadol hwn a chyfle i chwarae yn erbyn tîmau o Wlad Belg, Ffrainc, yr Almaen a'r Iseldiroedd yn ogystal â Lloegr
- GIBRALTAR**
Chwaraeodd tîm Dros 40 a Dros 45 y Merched mewn twrnamaint yn erbyn 2 dim clwb a tîm cynrychioliadol o Gibraltar
- GLASGOW**
Rhai canlyniadau agos yn erbyn ein Cefndryd Celtaidd a gorffen yn **4ydd**, **4ydd** a **3ydd** yn nhwrnameintiau'r 4 Gwlad y Dynion Dros 35, Dros 45 a Dros 55 oed
- NOTTINGHAM**
Canlyniadau cymysg ym Mhencampwriaeth y 4 Gwlad i'r Merched gyda'r tîm Dros 65 yn gorffen yn **2il**, y tîm Dros 60 yn **3ydd**, y tîm Dros 55 yn **4ydd** a'r tîm Dros 50 yn **4ydd** yn eu twrnameintiau priodol
- PORTSMOUTH**
Roedd gwrthwynebwyr y Merched Dros 35 a Dros 40 oed yn cynnwys Lluedd Arfog y DU (nid oedran y Meistri)!
- SOUTHGATE**
Medal aur i'r Merched Dros 65 yn nhwrnamaint Gwledydd yr Haf ar ôl curo Lloegr 1 – 0. Dau **4ydd** safle i'r Dynion Dros 40 a Dros 50 yn y 4 Gwlad
- ABERTAW**
Gorffen yn **1af** i'r tîm Dros 70, **2il** i'r tîm Dros 65 ac er gwaethaf rhai sgoriau agos iawn, **4ydd** safle i'r tîm Dros 60 oed yng Nghwpan Celtaidd y Dynion – gwych gweld tîmau Dreigiau Cymru'n cymryd rhan yn nhwrnameintiau Dros 65 a Dros 70 oed y Dynion

Gellir dod o hyd i rai o'r canlyniadau **yma**

Fforwm y Meistri

Ym mis Mawrth cynhaliwyd y fforwm Meistri cyntaf, gan ddod â Hoci Cymru, TAG y Meistri, Rheolwyr Tîmau, Hyfforddwyr a Chwaraewyr at ei gilydd.
Darparodd y fforwm blatfform i'r holl randdeiliaid allweddol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau cyfredol, ateb cwestiynau ac edrych ymlaen at sut rydym yn parhau i ddatblygu Hoci'r Meistri yng Nghymru.
Cynhelir y fforwm Meistri nesaf ar **ddydd Llun 3 Tachwedd**.



Edrych ymlaen

Blwyddyn brysur arall i'n Tîmau Meistri. Ym mis Ebrill a mis Mai 2025 cyhoeddwyd y carfannau i gynrychioli Cymru. Byddai'r carfannau hyn yn cymryd rhan mewn twrnameintiau allweddol fel:

- 9 – 11 Mai**Meistri Pedair Gwlad y Dynion Dros 40 – Caerdydd (Cymru)
.....Meistri Pedair Gwlad y Dynion Dros 35, Dros 45, a Dros 55 – Corc (Iwerddon)
- 16 – 18 Mai**Meistri Pedair Gwlad y Dynion Dros 60, Dros 65, Dros 70 a Dros 75 – Corc (Iwerddon)
- 23 Mai – 1 Mehefin**Pencampwriaeth Ewropeaidd y Dynion Dros 45 a Dros 50 a'r Merched Dros 45 a Dros 50 – Valencia (Sbaen)
- 13 – 15 Mehefin**Meistri Pedair Gwlad y Merched Dros 55, Dros 60, Dros 65 a Dros 70 – Abertawe (Cymru)
- 20 – 29 Mehefin**Pencampwriaeth Ewropeaidd y Dynion Dros 35 a Dros 40 a'r Merched Dros 35 a Dros 40 – Valencia (Sbaen)
- 4 – 6 Gorffennaf**.....Cwpan Celtaidd y Meistri – Dynion Dros 60, Dros 65, Dros 70 a Dros 75 – Caeredin (Yr Alban)
- 25 – 27 Gorffennaf**....Meistri Pedair Gwlad y Dynion Dros 50 – Caerdydd (Cymru)
- 1 – 3 Awst**Meistri Pedair Gwlad y Merched Dros 35, Dros 40, Dros 45 a Dros 50 – Glasgow (Yr Alban)
- 8 – 17 Awst**Pencampwriaeth Ewropeaidd y Dynion Dros 55 a Dros 60 a'r Merched Dros 55, Dros 60, Dros 65 a Dros 70 – Nottingham (Lloegr)
- 21 – 30 Awst**Pencampwriaeth Ewropeaidd y Dynion Dros 65, Dros 70, Dros 75 a Dros 90 – Ludwigsburg (Yr Almaen)

Timau

Merched 7 grŵp oedran (35 i 65 oed)

Dynion 9 grŵp oedran (35 i 75 oed)

Awyddus i ymuno?

Edrychwch ar yr holl gysylltiadau allweddol ar ein tudalen we - www.hockeywales.org.uk/masters

Dilynwch **Wales Masters Hockey** ar  | 

Diolch o galon i holl Hyfforddwyr, Ffrindiau, Rheolwyr, Meddygon, Chwaraewyr, Cefnogwyr, Dyfarnwyr a Swyddogion Technegol y Meistri – ni allem ei wneud hebdoch chi.

DIOLCH YN FAWR.



Enillwyr Cystadlaethau 2024/25

Cystadlaethau clwb

Dan Do y Merched	Caerdydd a'r Met
Dan Do y Dynion	Caerdydd a'r Met
Pencampwriaeth y Merched	Caerdydd a'r Met
Pencampwriaeth y Dynion	Caerdydd a'r Met
Tlws y Mercheds	Eirias
Tlws y Dynion	Caerdydd a'r Met
Her y Merched	Abergwaun a Gwdig
Her y Dynion	Prifysgol Aberystwyth
Pencampwriaeth Meistri'r Merched	Eryri Gogs
Tlws Meistri'r Merched	Merched Maldwyn
Meistri'r Dynion	Penarth



Cystadlaethau ieuenctid

Merched D18	Abertawe
Bechgyn D18	Abertawe
Merched D16	Caerdydd a'r Met
Bechgyn D16	Eglwys Newydd
Merched D14	Pwllheli
Bechgyn D14	Neuadd Llaneurgain
Merched D12	Eglwys Newydd
Bechgyn D12	Caerdydd a'r Met

Cystadlaethau Eurohockey	
Her Clybiau Dan Do EuroHockey I, Merched, 2025	Abertawe, 8fed safle
Her Clybiau Dan Do EuroHockey I, Dynion 2025	Caerdydd a'r Met, 4ydd safle
Tlws Clybiau EuroHockey II Merched 2025	Abertawe 2il safle
Her Clybiau EuroHockey I Merched 2025	Caerdydd a'r Met, safle 1af
Tlws Clybiau EuroHockey I Dynion 2025	Caerdydd a'r Met, 3ydd safle

Cystadlaethau ysgolion	
Merched Ysgol D18	Coleg Crist Aberhonddu
Bechgyn Ysgol D18	Coleg Crist Aberhonddu
Merched Ysgol D16	Haberdashers Trefynwy
Bechgyn Ysgol D16	Llandeilo Ferwallt
Merched Ysgol D14	Ysgol y Gadeirlan
Bechgyn Ysgol D14	Coleg Crist Aberhonddu
Merched Ysgol D12	Ysgol Howell's
Bechgyn Ysgol D12	Ysgol Glantaf



Cystadlu - Prif Ystadegau Cystadlaethau 2024/25

PRIF

27 Cyfanswm y cystadlaethau a gydlynwyd	427 Nifer y timau a gystadlodd	5,506 Nifer y chwaraewyr a gymerodd ran	592 Nifer y gemau a gynhyrchwyd	16,912 Cyfanswm y munudau o hoci
---	--	---	---	--

CLWB

19 Cyfanswm y cystadlaethau a gydlynwyd	175 Nifer y timau a gystadlodd	2,488 Nifer y chwaraewyr a gymerodd ran	299 Nifer y gemau a gynhyrchwyd	11,605 Cyfanswm y munudau o hoci
---	--	---	---	--

YSGOL

8 Total number of competitions coordinated	252 Nifer y timau a gystadlodd	3,018 Nifer y chwaraewyr a gymerodd ran	293 Nifer y gemau a gynhyrchwyd	5,307 Cyfanswm y munudau o hoci
--	--	---	---	---

FFRYDIO BYW (VEO)

116 Nifer y gemau a ffrydiwyd	5,843 Nifer y gwylwyr	3,860 Cyfanswm y munudau o hoci
---	---------------------------------	---

PLATFORM CYSTADLAETHAU (TOURNIFY)

37 Nifer y cystadlaethau a reolwyd ar y platfform	12,281 Nifer yr ymwelwyr unigryw
---	--

Cymdeithas Dyfarnwyr Hoci Cymru

Llongyfarchiadau i:

- **Clare Barwood** a greodd hanes yn Oman. I ddarlllen mwy [cliciwch yma](#).
- **Abby MacArthur** ar ei phenodiad i Gwpan Hoci Dan Do'r Byd yng Nghroatia. I ddarlllen mwy [cliciwch yma](#).
- **Chloe McCall** ar ei dyrchafiad i FIH.
- **Liv Turner & Liam Wade** ar eu dyrchafiadau i Lefel 2.
- **Kevin Roberts** ar ei uwchraddiad i'r Panel Canol.

Yn ogystal â chyflwyno **9 cwrs dyfarnu ar-lein Lefel 1 a 30+ o asesiadau** y tymor yma, cyflwynodd Cymdeithas Dyfarnwyr Hoci Cymru hefyd **seminar i Swyddogion Technegol a gweithdy cyflwyniad i fod yn swyddog a dyfarnu i Lysgenhadon Ifanc.**

Diolch i'r holl ddyfarnwyr, swyddogion a gweinyddwyr sy'n rhoi o'u hamser i sicrhau ein bod ni i gyd yn gallu chwarae ein camp.



Penodiadau FIH ac EuroHockey			
Enw'r Gystadleuaeth	Dyddiad	Enw'r Dyfarnwr/Swyddog	Rôl
Cwpan y Gwledydd Hoci Merched FIH Sbaen 2023-24 @ Terrassa (ESP)	3-9 Mehefin 2024	Clare Barwood	Dyfarnwr FIH
Pencampwriaeth 5oedd EuroHockey y Dynion 2024 @ Walcz (POL)	3-6 Gorffennaf 2024	Linda Treharne Jonathan Goold	Swyddog Technegol Dyfarnwr Cenedlaethol
Pencampwriaeth 5oedd EuroHockey y Merched 2024 @ Walcz (POL)	3-6 Gorffennaf 2024	Linda Treharne Jonathan Goold	Swyddog Technegol Dyfarnwr Cenedlaethol
Pencampwriaeth D21 EuroHockey y Merched 2024 @ Terrassa (ESP)	14-20 Gorffennaf 2024	Clare Barwood	Dyfarnwr Niwtral
Pencampwriaeth D21 EuroHockey y Dynion 2024 @ Terrassa (ESP)	14-20 Gorffennaf 2024	Clare Barwood	Dyfarnwr Niwtral
Pencampwriaeth D21 EuroHockey II-A y Dynion 2024 @ Walcz (POL)	15-20 Gorffennaf 2024	Chris Brewer	Cynrychiolydd Technegol
Pencampwriaeth D21 EuroHockey II-B y Dynion 2024 @ Lausanne (SUI)	15-20 Gorffennaf 2024	Kevin Roberts	Dyfarnwr Cenedlaethol
Pencampwriaeth D21 EuroHockey II-A y Merched 2024 @ Rakovnik, (CZE)	16-20 Gorffennaf 2024	Moli Smith	Dyfarnwr Cenedlaethol
Gemau Prawf 2024 Merched Cymru v Malaysia @ Caerdydd (WAL)	7-10 Awst 2024	John Taylor Lesley Bayne Chris Brewer Matthew Heiberg Darren Morgan-Lock Linda Treharne Clare Barwood Chloe McCall Christian Phillips-Adams Kevin Roberts	Cynrychiolydd Technegol y Gymdeithas Genedlaethol Swyddog Technegol y Gymdeithas Genedlaethol Swyddog Technegol y Gymdeithas Genedlaethol Swyddog Technegol y Gymdeithas Genedlaethol Swyddog Technegol y Gymdeithas Genedlaethol Dyfarnwr y Gymdeithas Genedlaethol Dyfarnwr y Gymdeithas Genedlaethol Dyfarnwr y Gymdeithas Genedlaethol Dyfarnwr y Gymdeithas Genedlaethol

Penodiadau FIH ac EuroHockey (parhad)			
Enw'r Gystadleuaeth	Dyddiad	Enw'r Dyfarnwr/Swyddog	Rôl
Gemau Prawf 2024 Dynion Cymru v Awstria @ Caerdydd (WAL)	8-11 Awst 2024	John Taylor	Cynrychiolydd Technegol y Gymdeithas Genedlaethol
		Lesley Bayne	Swyddog Technegol y Gymdeithas Genedlaethol
		Chris Brewer	Swyddog Technegol y Gymdeithas Genedlaethol
		Harri Evans	Swyddog Technegol y Gymdeithas Genedlaethol
		Adrian Marshall	Swyddog Technegol y Gymdeithas Genedlaethol
		Darren Morgan-Lock	Swyddog Technegol y Gymdeithas Genedlaethol
		Linda Treharne	Swyddog Technegol y Gymdeithas Genedlaethol
		Clare Barwood	Dyfarnwr y Gymdeithas Genedlaethol
		Christian Phillips-Adams	Dyfarnwr y Gymdeithas Genedlaethol
		Kevin Roberts	Dyfarnwr y Gymdeithas Genedlaethol
Gornest Gymhwyso A Pencampwriaeth EuroHockey y Merched 2024 @ Glasgow (SCO)	22-25 Awst 2024	John Taylor	Swyddog Technegol
Gornest Gymhwyso A Pencampwriaeth EuroHockey y Dynion 2024 @ Vienna (AUT)	22-25 Awst 2024	Kevin Roberts	Dyfarnwr a Benodwyd EuroHockey
Pencampwriaeth D21 Dan Do y Dynion EuroHockey @ Genefa (SUI)	17-19 Ionawr 2025	Abby MacOram	Dyfarnwr a Benodwyd
Pencampwriaeth D21 Dan Do y Dynion EuroHockey @ Lousada (POR)	18-19 Ionawr 2025	John Taylor	Swyddog Technegol
Cwpan Dan Do y Byd FIH @ Porec (CRO)	3-9 Chwefror 2025	Abby MacOram	Dyfarnwr a Benodwyd
Cwpan Clybiau Dan Do EuroHockey y Merched @ Siauliai (LTU)	14-16 Chwefror 2025	Abby MacOram Kevin Roberts	Dyfarnwr a Benodwyd Dyfarnwr a Benodwyd
Her Clybiau Dan Do I y Merched EuroHockey @ Vienna (AUT)	14-16 Chwefror 2025	Chloe McCall	Dyfarnwr Cenedlaethol
Her Clybiau Dan Do II EuroHockey y Dynion a'r Merched @ Porvoo (FIN)	14-16 Chwefror 2025	Cathy Wright	Rheolwr Dyfarnwyr
FIH Hockey Nations Cup 2, Muscat (OMAN)	17-23 Chwefror 2025	Clare Barwood	Dyfarnwr FIH
Indoor Men's EuroHockey Indoor Club Challenge I, Puconci (SLO)	21-23 Chwefror 2025	Karen Evans Christian Phillips-Adams	Rheolwr Dyfarnwyr Dyfarnwr Cenedlaethol



▲ Llysgenhadon Ifanc

▼ Seminar Swyddogion Technegol



PERFFORMIO

Dathlu 2024: Crynodeb o Berfformiad

Mae 2024 wedi bod yn flwyddyn wych i’n carfannau perfformiad.

Mae dynion hŷn Cymru wedi cael blwyddyn nodedig. Gwelsom ddwy ymgyrch ryngwladol fuddugol yn erbyn yr Alban ac Awstria ochr yn ochr ag ymgyrch wych yng Ngemau Cymhwysio Ewrop a welodd nifer o chwaraewyr yn cyrraedd cerrig milltir trawiadol.

Drwy gydol y flwyddyn, dyfarnwyd capiau rhyngwladol hŷn cyntaf i saith chwaraewr ifanc gyda cherrig milltir pellach, gan gynnwys Owain Dolan Gray yn casglu ei 150fed cap rhyngwladol ac Alf Dinnie yn dathlu ei 50fed cap i Gymru.

Crynhodd capten y Dynion Hŷn, Ben Francis, y flwyddyn drwy wneud y sylwadau canlynol:

“Mae wedi bod yn flwyddyn gadarnhaol iawn yn arwain grŵp y dynion hŷn. Mae wedi bod yn wych gweld chwaraewyr iau yn ymuno â’r garfan, yn cael eu profiad cyntaf o hoci rhyngwladol ac yn rhoi perfformiadau gwych mewn buddugoliaethau cyfres brawf. Rydw i’n credu ein bod ni wedi paratoi’n dda ar gyfer 2025, fydd yn flwyddyn gyffrous iawn.

O safbwynt personol, mae’n anrhydedd ac yn fraint bod yn gapten ar y dynion hŷn, rhywbeth rydych chi’n breuddwydio amdano fel plentyn yn tyfu i fyny yn chwarae hoci yng Nghymru.”



Yn yr un modd, mae **Merched Cymru** wedi gallu parhau â’u momentwm cadarnhaol eleni. Yn ystod yr haf eleni, fe wnaethon ni groesawu Malaysia i’r Ganolfan Hoci Genedlaethol ar gyfer cyfres haf gartref. Fe wnaeth Rachel Goodwin, Lily Roberts, Ava Dempsey, Freya Diamond a Caitlin Witham eu hymddangosiad cyntaf yng Nghaerdydd, gan ennill eu cap cyntaf ar dir cartref.

Llwyddodd y garfan hefyd i sicrhau lle yn rownd derfynol Gemau Cymhwysio Ewrop yn Glasgow 2024, gan golli yno o drwch y blewyn i’r Alban, y tîm cartref. Fe wnaethon ni hefyd ddathlu cerrig milltir pellach, gydag Ella Jackson ac Emily Rowlands yn ennill eu 50fed cap.

Dywedodd Capten Hŷn y Merched, Beth Bingham: *“Ar y cyfan fel carfan, rydyn ni wedi cael 12 mis cadarnhaol iawn. Mae’r tîm wedi dod at ei gilydd yn gyflym ac wedi chwarae hoci cyffrous ac ymosodol, yn fwyaf nodedig, yn y fuddugoliaeth gyfres dros Malaysia ym mis Awst lle derbyniodd 5 o’r tîm eu capiau cyntaf. Gan edrych ymlaen at 2025, rydw i’n gyffrous i weld beth all y grŵp talentog yma ei gyflawni.”*



Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roedd ffocws gwirioneddol ar y llwybrau perfformiad yn Hoci Cymru, ac mae'n wych gweld y gwaith caled hwnnw'n talu ar ei ganfed gyda nifer da o chwaraewyr yn trosglwyddo'n esmwyth rhwng ein rhaglenni rhyngwladol iau a hŷn.

Yn y cyfamser, cafodd y **carfannau dan 21 oed** flwyddyn wych o ddatblygiad hefyd. Fe gafodd y merched un o'u cylchoedd mwyaf llwyddiannus eto, gan gynnwys ennill Aur yn yr Ewros yn y Weriniaeth Tsiec fis Gorffennaf diwethaf ochr yn ochr â chymhwyso ar gyfer Cwpan y Byd Iau a Phencampwriaethau Adran A Ewrop. Ac fe wnaeth y dynion wynebu cyfres brawf o safon yn erbyn Lloegr, digwyddiad Tair Gwlad gwych yn erbyn Iwerddon a'r Alban a'u Pencampwriaethau Ewropeaidd yn y Swistir ochr yn ochr â llawer o wersylloedd hyfforddi.



Cafodd ein holl **garfannau Grŵp Oedran Cenedlaethol** ni amrywiaeth eang o weithgarwch eleni, gan roi cyfle gwych i adeiladu sylfeini cyn 2025 gyffrous i hoci iau.

Wynebodd y ddwy **garfan dan 18** oed gyfres gystadleuol dros y Pasg yn erbyn Ulster a Chanada cyn wynebu Lloegr ym mis Mai. Wedyn aethant benben â rhai o wledydd hoci gorau'r haf gan gynnwys yr Iseldiroedd, Sbaen ac Iwerddon, heriau a fydd wedi eu hymestyn a'u datblygu wrth baratoi ar gyfer Pencampwriaethau EuroHockey Dan 18 II 2025.

Cafodd ein **chwaraewyr dan 16** oed ni flas cyntaf ar hoci rhyngwladol gyda'r fformat newydd, ac wedyn cyfres brawf yn erbyn y Swistir dros y Pasg ac wedyn gemau 5oedd Pencampwriaethau EuroHockey Dan 16 yn yr haf. Cyfle gwych arall i gyflwyno ein chwaraewyr ni i brofiad hoci thwrnameintiau rhyngwladol.



Gwelwyd llwyddiant ein chwaraewyr hŷn ni'n ymestyn y tu hwnt i ffiniau Cymru hefyd gyda phump o chwaraewyr hŷn yn cystadlu dros garfan Prydain Fawr. Sicrhodd **Toby Reynolds-Cotterill** fwy o gapiau i Brydain Fawr yng Nghynghrair Proffesiynol FIH, fe ymunodd **Gareth Furlong** yn swyddogol â'r garfan ganolog ac fe ymunodd â **Sarah Jones, Jacob Draper** a **Rupert Shipperley** yng Ngemau Olympaidd Paris 2024.

Yn ogystal, sicrhodd **Nic Morgan, Owen Sutton, Caitlan Witham, Amy Cradden** a **Betsan Thomas** eu lle ar Raglen Datblygu Elitaidd Prydain Fawr gyda **Millie Holme, Fred Newbold** a **Rebecca Daniel**, a phob un yn graddio o'r rhaglen i gael cynnig contractau yn rhaglen hyfforddi ganolog Prydain Fawr ar gyfer 2025.

MAE DYFODOL EIN TIMAU PERFFORMIAD NI'N EDRYCH YN DDISGLAIR YN SICK!

Rhaglen Ranbarthol

Yn 2024, cefnogodd ein pedair Canolfan Ranbarthol (Gogledd, De Orllewin, De Ddwyrain 1, a De Ddwyrain 2) ddatblygiad technegol a chyfannol mwy na 200 o athletwyr iau. Daeth y cylch Rhanbarthol cyntaf i ben gyda Thîm Cynrychiolwyr Rhanbarthol Cymru yn cystadlu yng Ngemau Ysgolion y DU yn Loughborough – profiad amhrisiadwy i'r chwaraewyr a'r hyfforddwy.

Arweiniodd y profiad hwn at ddewis tri chwaraewr Rhanbarthol ar gyfer cylch Grŵp Oedran Cenedlaethol (NAG) 2025, gan dynnu sylw at effaith uniongyrchol y llwybr newydd.

Dechreuodd Rhaglen Ranbarthol 2025 ym mis Ionawr gyda chwaraewyr NAG a chwaraewyr wedi'u hasesu gan NAG, gan ehangu ym mis Ebrill i gynnwys y rhai a ddewiswyd mewn Gwyliau Sirol. Mae'r rhaglen yn cyd-fynd â safonau NAG, gan ddarparu sesiynau 4 awr, diwrnod llawn sy'n cyfuno datblygiad ar y cae ac oddi arno. Mae ein partneriaethau rhanbarthol â Phrifysgol Wrecsam, Prifysgol Abertawe, a Chwaraeon Cymru yn chwarae rhan allweddol wrth gyflwyno'r rhaglen hon.

Yn 2025, bydd chwaraewyr o'r pedair canolfan yn dod at ei gilydd unwaith eto i gynrychioli Cymru yng Ngŵyl Dalent Hoci Lloegr.

Diolch o galon i'r holl chwaraewyr, y rhieni a'r hyfforddwy am eu hymrwymiad parhaus i'r llwybr.



Grwpiau Oedran Cenedlaethol (NAG)

Trosolwg 2024

Daeth tymor 2023/24 i ben gyda sawl carreg filltir allweddol. Lansiwyd ein brand Hoci Cymru newydd a ffurfiwyd partneriaeth gyda'r cyflenwr cit Castore, gan ddangos y cit newydd am y tro cyntaf yn ystod ein cyfres Pasg – Merched NAG yn erbyn Canada a Bechgyn NAG yn erbyn Ulster.

Cystadlodd timau 5 bob ochr y Bechgyn a'r Merched Dan 16 oed yn rhyngwladol hefyd yn y Swistir, ac wedyn cyfranogiad yn yr EuroHockey 5 bob ochr Dan 16 oed yng Nghroatia. Yn y cyfamser, wynebodd ein timau Dan 18 oed rai o chwaraewyr iau gorau Ewrop yng Nghorc, gan chwarae yn erbyn yr Iseldiroedd, Sbaen ac Iwerddon mewn digwyddiad Pedair Gwlad. Daeth yr haf i ben gyda'r ddwy garfan yng Ngŵyl Dalent Hoci Lloegr, lle enillodd y Bechgyn Dan 18 eu grŵp a gorffen yn gydradd ail.



Rhaglen NAG dan 18 2024/25

Yn dilyn proses ddethol gystadleuol (Medi – Ionawr), enwyd dwy garfan o 24 o chwaraewyr ar gyfer cylch NAG yn 2025. Dechreuodd eu rhaglenni gyda gwersylloedd preswyl ym mis Chwefror – y Merched yn Ysgol Rydal a'r Bechgyn yng Ngholeg Crist, Aberhonddu – gan ganolbwyntio ar feithrin a datblygu tîm.

Y Pasg yma, bydd y ddwy garfan yn dechrau chwarae gemau: y Merched yn erbyn Canada a'r Bechgyn yn erbyn Ulster mewn cyfres o dair gêm. Mae'r rhaglen yn adeiladu tuag at Bencampwriaeth EuroHockey II Dan 18 oed ym mis Gorffennaf.

- Merched NAG – Glasgow, yr Alban, 13–19 Gorffennaf (AUT, CZE, IRL, LTU, SCO, TUR, WAL, SUI)
- Bechgyn NAG – Alanya, Twrci, 13–19 Gorffennaf (AUT, IRL, ITA, POL, SUI, TUR, UKR, WAL)

HYFFORDDWYR

Grŵp Oedran Cenedlaethol – Bechgyn

Mark Ramage	Prif Hyfforddwr
Shelley Robinson	Rheolwr Rhaglen
Brett Madden	Hyfforddwr Cynorthwyol
Dave Sharp	Hyfforddwr Gôlgeidwaid
Connor Heatherton	Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru

Grŵp Oedran Cenedlaethol – Merched

Chris Davis	Prif Hyfforddwr
Emily Tyler	Rheolwr Rhaglen
Matt Way	Hyfforddwr Cynorthwyol
Dave Sharp	Hyfforddwr Gôlgeidwaid
Gwyn Davis Murray	Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru

CRONFA FFISIOTHERAPYDDION

Carmen Ansley
Chelsie-Jane Mason
Cora Hogan
Ashleigh Abbott
Callum Chapman
Aimee Jones

HYFFORDDWYR Y CANOLFANNAU
PERFFORMIAD RHANBARTHOL

Brett Madden	Prif Hyfforddwr y Gogledd
Tom Williamson	Hyfforddwr Cynorthwyol y Gogledd
Rob Williams	Hyfforddwr Cynorthwyol y Gogledd
Matt Wilkinson	Hyfforddwr Cynorthwyol y Gogledd
Luke Edwards	Hyfforddwr Gôlgeidwaid y Gogledd
Callum Chapman	Prif Hyfforddwr y De Orllewin
Fleur Gallagher	Hyfforddwr Cynorthwyol y De Orllewin
Charlie Johnson	Hyfforddwr Cynorthwyol y De Orllewin
Robert Webb	Hyfforddwr Gôlgeidwaid y De Orllewin
Matt Magann	Prif Hyfforddwr De Ddwyrain 1
Nic Morgan	Hyfforddwr Cynorthwyol De Ddwyrain 1
Ethan Broadbank	Hyfforddwr Cynorthwyol De Ddwyrain 1
Rhys Payne	Hyfforddwr Gôlgeidwaid De Ddwyrain 1
Meg Langley	Prif Hyfforddwr De Ddwyrain 2
Lucy Pugh	Hyfforddwr Cynorthwyol De Ddwyrain 2
George Marshall	Hyfforddwr Cynorthwyol De Ddwyrain 2
Rhys Payne	Hyfforddwr Gôlgeidwaid De Ddwyrain 1



HYFFORDDWYR SIROL	
Fleur Gallagher	Prif Hyfforddwr Bechgyn Afan Nedd Tawe
Charlie Johnson	Prif Hyfforddwr Bechgyn Afan Nedd Tawe
Emily Haywood	Prif Hyfforddwr Merched D15 Afan Nedd Tawe
Meg Langley	Prif Hyfforddwr Merched D17 Afan Nedd Tawe
Robert Webb	Prif Hyfforddwr Bechgyn D17 Dyfed
Robert Codd	Prif Hyfforddwr Bechgyn D15 Dyfed
Charlotte Harris	Prif Hyfforddwr Merched D15 Dyfed
Ffion Dart	Hyfforddwr Cynorthwyol Merched D15 Dyfed
Lucy Griffiths	Prif Hyfforddwr Merched D17 Dyfed
Simon Roberts	Hyfforddwr Cynorthwyol Merched D17 Dyfed
George Marshall	Prif Hyfforddwr Bechgyn Arfordir y De
Graeme Jones	Prif Hyfforddwr Merched D15 Arfordir y De
Jason Arnold	Hyfforddwr Cynorthwyol Merched D15 Arfordir y De
Jason Arnold	Prif Hyfforddwr Merched D17 Arfordir y De
Graeme Jones	Hyfforddwr Cynorthwyol Merched D17 Arfordir y De
Angus McDermid	Prif Hyfforddwr Bechgyn Caerdydd
Rebecca Daniels	Prif Hyfforddwr Merched D15 Caerdydd
Ethan Broadbank	Prif Hyfforddwr Merched D15 Caerdydd
David Robinson	Prif Hyfforddwr Merched D17 Caerdydd
Tim Jones	Prif Hyfforddwr Bechgyn Gwent
Matt Magann	Prif Hyfforddwr Merched D15 Gwent
Matt Magann	Prif Hyfforddwr Merched D17 Gwent
Kelly White	Cydlynnydd Gwent
Mark Zeigler	Prif Hyfforddwr Bechgyn Cymoedd Morganwg
Jamie Everett	Hyfforddwr Cynorthwyol Bechgyn Cymoedd Morganwg

HYFFORDDWYR SIROL (<i>parhad</i>)	
Jess Owens	Cydlynnydd Cymoedd Morganwg
Mark Zeigler	Prif Hyfforddwr Merched Cymoedd Morganwg
Sarah Rawlins	Hyfforddwr Cynorthwyol Merched Cymoedd Morganwg
Liam Bell	Prif Hyfforddwr Bechgyn y Gogledd Ddwyrain
Stephen Bullock	Hyfforddwr Cynorthwyol Bechgyn y Gogledd Ddwyrain
Danny Foulkes	Hyfforddwr Cynorthwyol Bechgyn y Gogledd Ddwyrain
Tom Williamson	Prif Hyfforddwr Merched D15 y Gogledd Ddwyrain
Luke Doughty	Hyfforddwr Cynorthwyol Merched D15 y Gogledd Ddwyrain
Sam Barrett	Prif Hyfforddwr Merched D17 y Gogledd Ddwyrain
Luke Doughty	Hyfforddwr Cynorthwyol Merched D17 y Gogledd Ddwyrain
Luke Edwards	Prif Hyfforddwr Bechgyn Eryri
Lynda Bennett	Prif Hyfforddwr Merched D15 Eryri
Ryan Goddard	Hyfforddwr Cynorthwyol Merched D15 Eryri
Ellis Lloyd-Jones	Prif Hyfforddwr Merched D17 Eryri
Matt Wilkinson	Prif Hyfforddwr Merched D17 Eryri
Pip Payne	Cydlynnydd Eryri



Capiau rhyngwladol

CAPIAU CYNTAF

Rachel Goodwin | Lily Roberts | Ava Dempsey | Freya Diamond
Caitlin Witham | Nic Morgan | Jamie Rawlings | John Bennett
Will Penrose | Ben Wall | Will Riley | Sam Rollett

50 FED CAP

Alf Dinnie | Ella Jackson | Emily Rowlands

150 FED CAP

Owain Dolan-Gray



Crynodeb Cyfarwyddwr Perfformiad

Fel sy’n digwydd yn ystod y rhan fwyaf o flynyddoedd yn ôl pob tebyg, roedd llawer iawn yn digwydd yn y maes Perfformiad yn 2024 gyda haf prysur o weithgarwch i’n holl garfannau ni fel y bydd yr adroddiadau cysylltiedig yn ei gefnogi.

Braf iawn yw dweud bod ein holl garfannau ni’n parhau i ymestyn y tu hwnt i’r adnoddau y gellir eu darparu, sy’n ysbrydoledig i’w weld a bod yn rhan ohono, ac mae hyn yn cynnig gobaith parhaus wrth i ni baratol i wynebu cyfnod anodd o 12 i 18 mis pryd byddwn yn gweld gostyngiad pellach mewn adnoddau ond dim gostyngiad yn nifer y twrnameintiau y mae’n rhaid i ni gymryd rhan ynddynt. Bydd y carfannau hyn yn unig yn mynychu 3 cystadleuaeth fawr rhwng mis Mehefin 2025 a mis Mawrth 2026.

Profodd 2024 yn sicr mai’r gwahaniaethau lleiaf sy’n penderfynu tynged rhywun yn aml mewn chwaraeon Perfformiad Uchel, gyda’r Dynion a’r Merched Hŷn yn colli’r cyfle o drwch blewyn i gymhwyso ar gyfer adran ‘A’ Ewrop yn eu rowndiau cymhwyso terfynol priodol ar lefel Ewropeaidd. Er hynny, cafwyd sawl perfformiad gwych fel rhan o’r broses o geisio cyrraedd yno. Cafodd ein dynion Dan 21 oed ni gemau agos a chystadleuol iawn yn eu Pencampwriaethau Ewropeaidd gyda’r sgôr yn newid dwylo drwy gydol y gemau ond, unwaith eto, roedd y mân wahaniaethau yn eu herbyn wrth iddyn nhw orffen y tu allan i gyfle podiwm. O ran y merched Dan 21 oed, ganddyn nhw y cafwyd gwir uchafbwynt yr haf wrth iddyn nhw ennill eu cystadleuaeth adran ‘B’ Ewropeaidd, gan sicrhau lle yn ôl yn adran ‘A’ yn 2026 a chymhwyso ar gyfer Cwpan Byd Iau nesaf y Merched yn Chile ym mis Rhagfyr 2025.

Rydyn ni’n gweld cyfleoedd gwell ac ychwanegol i’n chwaraewyr ifanc ni o ganlyniad i raglen y Llwybr Sirol a Rhanbarthol ac, yn bwysicaf oll, mae hyn yn golygu bod ein talent ni’n cael cyfleoedd mwy cystadleuol i ddysgu a datblygu ohonynt. Mae hyn yn ychwanegu dyfnder at y potensial yn ein rhaglen Grŵp Oedran Cenedlaethol.

Yn olaf, gyda 2024 yn flwyddyn Olympaidd, roedd yn anhygoel unwaith eto gweld cynrychiolaeth dda iawn gennym ar y cae gyda Phrydain Fawr ym Mharis ac mewn twrnamaint oedd yn un eithriadol a chwaraewyd ar ddwyseidd a lefel sgiliau trawiadol gan dynnu sylw at holl elfennau gorau ein camp. Rydyn ni wedi parhau i weld llwyddiant wrth i chwaraewyr newydd symud i raglen uwch Prydain Fawr dros yr ychydig fisoedd diwethaf, gan brofi bod ein rhaglenni ni’n parhau i gefnogi datblygiad unigol yn ogystal â gweithio tuag at ein dyheadau ar y cyd.

Hoffwn ddiolch i’r holl chwaraewyr, y rhieni, a staff a thîm y sefydliad sydd wedi cefnogi ein holl raglenni ni, oherwydd ni fyddem yn gallu cyflawni’r hyn rydym yn llwyddo i’w gyflawni hebddynt hwy.



Kevin Johnson
Cyfarwyddwr Perfformiad

Staff Cefnogi Perfformiad

DYNION HŶN	
Danny Newcombe	Prif Hyfforddwr y Dynion Hŷn
Gwyn Williams	Rheolwr Rhaglen y Dynion Hŷn
Martin Schouten	Hyfforddwr Cynorthwyol y Dynion Hŷn a Phrif Hyfforddwr Dreigiau’r Dynion
Sam Rowe	Dadansoddydd y Dynion Hŷn a Hyfforddwr Cynorthwyol Dreigiau’r Dynion
Reuben Elliott	Staff Cefnogi Dreigiau’r Dynion
Debbie Mason	Ffisiotherapydd y Dynion Hŷn
Mitchell Walsh	Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru y Dynion Hŷn
Mark Hill	Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru y Dynion Hŷn

MERCHED HŶN	
Kevin Johnson	Prif Hyfforddwr y Merched Hŷn
Rebecca Daniels	Rheolwr Rhaglen y Merched Hŷn
Walid Abdo	Hyfforddwr Cynorthwyol y Merched Hŷn a Phrif Hyfforddwr Dreigiau’r Merched
Samantha Walker	Ffisiotherapydd y Merched Hŷn
Rhianna Galvin	Dadansoddydd Perfformiad y Merched Hŷn
Sam Thirlwell	Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru y Merched Hŷn
Paul Edwards	Staff Cefnogi Dreigiau’r Merched
Alyssa Mildenstein	Ffisiotherapydd Dreigiau’r Merched

CEFNOGI PERFFORMIAD	
Henry Davies	Pennaeth Cryfder a Chyflyru
Jonny Harper	Pennaeth Gwasanaethau Meddygol
Tom Millington	Hyfforddwr Gôlgeidwaid y Dynion a'r Merched Hŷn
Rhys Payne	Staff Cefnogi'r Dynion a'r Merched Hŷn



Hoffem ddiolch i'n Partneriaid a'n Rhanddeiliaid am eu cefnogaeth

Partneriaid Pennawd



Partneriaid swydddogol



Rhanddeiliaid Allweddol



Ffrindiau Hoci Cymru



Cefnogaeth
Ysgol Bro Morgannwg school



249
o aelodau



48
o rafflau misol



14
o enillwyr clwb



34
o enillwyr unigol



Our Facebook page has
976 o ddilynwyr
957 wedi hoffi'r dudalen
Ffrindiau Hoci Cymru



Our Instagram account has
410 o ddilynwyr
338 o bostiadau
friends_of_wh



Our X account has
348 o ddilynwyr
@FriendsOfWH

www.friendsofwelshhockey.org.uk

Charity No: 1140894



**Elusen a sefydlwyd i gefnogi gweithgareddau hoci
maes yng Nghymru yw Ffrindiau Hoci Cymru.**



Edrych Ymlaen: Camau Gweithredu ar gyfer 2025/26

Wrth i ni gloi blwyddyn ddeinamig arall, rydym yn gyffrous i rannu'r hyn sydd o'n blaen ar gyfer tymor 2025/26. Gyda ffocws parhaus ar gynhwysiant a rhagoriaeth, dyma'r datblygiadau allweddol sy'n siapia dyfodol ein camp:

Codi'r Safon: Lansio Safonau Gofynnol i Glybiau

O fis Medi 2025 ymlaen, byddwn yn lansio'r Fframwaith Safonau Gofynnol yn swyddogol ar gyfer clybiau ledled y wlad. Mae'r fenter hon yn cwmpasu meysydd hanfodol fel hyfforddi, dyfarnu, llywodraethu a marchnata, gan sicrhau bod pob clwb yn bodloni meincnod cyson. Mae'r dull hwn o weithredu wedi'i gynllunio i hyrwyddo cynaliadwyedd, proffesiynoldeb a chynhwysiant, gan ddiogelu dyfodol ein camp ar gyfer cenedlaethau i ddod.

Diweddariad Ffi Aelodaeth:

O dymor 2025/26 ymlaen, byddwn yn cyflwyno ffioedd aelodaeth wedi'u diweddaru, gan gynnwys cynnydd mewn pris i gefnogi buddsoddiad parhaus yn y gêm. Er mwyn gwneud hoci'n hygyrch i bawb, rydym hefyd yn cyflwyno:

- Cynllun talu misol ar gyfer cyllidebu haws
- Cronfa caledi i gefnogi pobl sy'n wynebu heriau ariannol

Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gadw hoci ar agor, yn deg, ac yn gefnogol i bawb.

Ar y Llwyfan Byd-eang: Cwpan Byd y Merched Dan 21

Ym mis Rhagfyr, bydd ein tîm Merched Dan 21 yn teithio'n falch i Chile i gynrychioli Cymru yng Nghwpan Iau y Byd. Mae hon yn garreg filltir anhygoel ac yn dyst i'w talent a'u hymroddiad. Cadwch lygad am y wybodaeth ddiweddaraf wrth i ni eu cefnogi nhw ar y siwrnai gyffrous hon.



Y Llwybr i Gwpan y Byd 2026: Rowndiau Rhagbrofol y Dynion a'r Merched

Bydd mis Mawrth 2026 yn nodi moment hollbwysig wrth i'n timau cenedlaethol ni ar gyfer y dynion a'r merched gystadlu yng ngemau rhagbrofol Cwpan y Byd. Gyda thwrnamaint 2026 yn cael ei gynnal yn yr Iseldiroedd a Gwlad Belg, bydd tîm y merched yn anelu at greu hanes drwy gymhwyso am y tro cyntaf erioed. Byddwn yn eu cefnogi bob cam o'r ffordd!

Hockey IQ: Ysbrydoli'r Genhedlaeth Nesaf

Yn lansio ym mis Medi, **Hockey IQ** yw ein rhaglen addysgol newydd sbon ar gyfer ysgolion, gan ddod â hoci i'r ystafell ddosbarth a thu hwnt. Mae'r fenter yn cynnwys:

- Adnoddau difyr sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm
- Offer i helpu athrawon i gyflwyno hoci yn hyderus ar unrhyw arwyneb
- Cyfleoedd i blant chwarae a chysylltu drwy chwaraeon

Mae Hockey IQ yn fwy na rhaglen – mae'n llwybr at angerdd a chyfranogiad gydol oes.

Flyerz Hoci: Creu Gêm Gwbl Gynhwysol

Rydyn ni'n falch o barhau i ehangu **Flyerz Hoci**, ein menter hoci gynhwysol sydd wedi cael ei datblygu mewn cydweithrediad â chlybiau, ysgolion a rhanddeiliaid. Nod y prosiect hwn yw sicrhau bod pawb – dim ots beth yw eu gallu neu eu cefndir – yn cael y cyfle i gydio mewn ffon a chwarae. Rydyn ni'n credu y dylai hoci fod yn gêm i bawb, ac mae Flyerz Hoci yn ganolog i wireddu hynny.

BYDDWCH YN RHAN OHONO - 2026

Mae'r flwyddyn sydd o'n blaen yn addo cyfleoedd cyffrous a chynnydd pwerus. Diolch i bawb sy'n parhau i hyrwyddo a chefnogi hoci yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at greu dyfodol cadarnach a mwy cynhwysol – gyda'n gilydd.





DIOLCH

Adroddiad Blynyddol Hoci Cymru 2024/25

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad, i Irfon Bennett am gofnodi'r eiliadau gwerthfawr hynny, ac i'r teulu hoci am eich cefnogaeth barhaus.

Am ragor o wybodaeth neu i gymryd rhan ewch i: **www.hockeywales.org.uk**

 @HockeyWales

 @Hoci_Cymru

 Hoci Cymru

Neu e-bostiwch ni yn: **info@hockeywales.org.uk**

Hoci Cymru, Sport Wales National Centre, Sophia Gardens, Cardiff, CF11 9SW.